Siarad Gyda Fi
Talk With Me

# Cefnogi Datblygiad Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu yn y Blynyddoedd Cynnar

# Adran 4:
## Canllaw i blant 2 flwydd oed i 2 flwydd 11 mis oed



OGL © Hawlfraint y Goron 2023, Llywodraeth Cymru, WG48480 ISBN digidol 978-1-83504-694-4
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg

# Cefnogi Datblygiad Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu yn y Blynyddoedd Cynnar

## Adran 4: Canllaw i blant 2 flwydd oed i 2 flwydd 11 mis oed

### Tudalennau Trosolwg:

Sylw a Gwrando ........ 65
Chwarae a Rhyngweithio ........ 66
Deall Iaith Lafar ........ 67
Defnyddio Iaith Lafar ........ 68
Lleferydd ........ 69

### Dilyniannau Datblygiadol:

Sylw a Gwrando ........ 70
Chwarae a Rhyngweithio ........ 71
Deall Iaith Lafar ........ 72
Defnyddio Iaith Lafar ........ 73
Lleferydd ........ 74


### Posteri Strategaethau a Gweithgareddau a Awgrymir:

Sylw a Gwrando ........ 77
Chwarae a Rhyngweithio ........ 79
Deall Iaith Lafar ........ 81
Defnyddio Iaith Lafar ........ 83
Lleferydd ........ 85

Trwy gydol y canllawiau hyn, cyfeiriwyd at ddatblygiad nodweddiadol LlICh. Mae'n bwysig cefnogi'r plentyn yn ei gam datblygu yn hytrach na'i oedran.

## Sylw a Gwrando

## 2 flwydd i 2 flwydd 11 mis oed




**Sgiliau sylw a gwrando yw sylfaen lleferydd, iaith a chyfathrebu.** Mae angen i blant ddatblygu'r sgiliau hanfodol hyn er mwyn gallu deall y byd o'u cwmpas, datblygu sgiliau cymdeithasol, deall arferion, dysgu geiriau newydd a datblygu synau lleferydd.

Ar yr oed hwn, mae llawer o blant yn gallu talu sylw i gyfarwyddyd oedolyn ond efallai na fyddant yn gallu ymdopi â gwneud un peth a gwrando ar gyfarwyddyd am rywbeth arall. Gall oedolion gefnogi sgiliau gwrando trwy siarad am ddiddordebau'r plentyn a'r hyn maent yn canolbwyntio arno.

**Rhwng 2 flwydd a 2 flwydd 11 mis oed efallai y sylwch chi fod y plentyn yn….**

- canolbwyntio ar un peth ar y tro (sylw sianel sengl)
- gwrando ar siarad sydd wedi'i gyfeirio atynt ond mae angen eu promptio e.e. galw eu henw
- dechrau gwrando ar siarad â diddordeb ond mae'n hawdd tynnu eu sylw
- gwrando ar stori fer gyda lluniau a dilyniant digwyddiadau syml
- talu sylw i weithgaredd ar y cyd am 5 munud.

**Creu amgylchedd sy'n galluogi:**

- ☑ Lleihewch bethau sy'n tynnu sylw e.e. symudiadau, sŵn, pethau gweledol sy'n tynnu sylw.
- ☑ Labelwch ardaloedd gydag arwyddion gweledol.
- ☑ Sicrhewch fod gennych arferion clir a chyson a defnyddiwch amserlenni gweledol.
- ☑ Cyfyngwch ar nifer yr adnoddau sydd allan ar unrhyw un adeg.

**Strategaethau i ddatblygu sylw a gwrando:**


- Sicrhewch eich bod wyneb-yn-wyneb ar lefel y plentyn.
- Defnyddiwch enw'r plentyn i gael eu sylw.
- Dilynwch arweiniad y plentyn a siaradwch am eu chwarae.
- Arhoswch tan fod y plentyn yn edrych arnoch cyn siarad.
- Siaradwch yn glir, yn bwyllog ac yn araf. Gadewch amser i feddwl.
- Defnyddiwch oslef a mynegiant wyneb diddorol.
- Gwobrwywch enghreifftiau o dalu sylw i weithgaredd ar y cyd.
- Defnyddiwch frawddegau byr, syml.


Sicrhewch fod pob oedolyn yn MODELU ac yn CANMOL ymddygiadau sylw a gwrando da.

**CHWARAE GYDA FI... edrychwch ar rai o'r gweithgareddau a awgrymir ar dudalen 78**

Aros am Ewch!








Gwrando am synau








# Chwarae a Rhyngweithio

## 2 flwydd i 2 flwydd 11 mis oed




**Mae plant yn gwneud synnwyr o'r byd trwy chwarae ac mae chwarae'n hollbwysig er mwyn cefnogi datblygiad yr ymennydd yn y blynyddoedd cynnar.** Trwy chwarae, mae plant yn datblygu ac yn dysgu defnyddio'u sgiliau lleferydd, iaith a chyfathrebu. Chwarae yw'r cyd-destun hollbwysig i blant dan bum mlwydd oed er mwyn dysgu am sgiliau cymdeithasol.

**Mae rhyngweithio yn cynnwys y gallu i chwarae mewn ffordd gydweithredol gyda chyfoedion a chymryd tro**. Trwy chwarae a rhyngweithio, mae plant yn dysgu deall eu hemosiynau a'u rheoleiddio, a datblygu eu sgiliau cymdeithasol.

**Rhwng 2 flwydd a 2 flwydd 11 mis oed efallai y sylwch chi fod y plentyn yn....**

- dangos dilyniant wrth chwarae yn ddychmygus e.e. rhoi bath i doli, gwisgo doli a rhoi doli yn y gwely
- dangos diddordeb yn chwarae plant eraill ac yn ymuno yn raddol
- defnyddio rhai gwrthrychau yn ddychmygus wrth chwarae e.e. esgus bod bocs yn gar neu yn wely
- rhyngweithio ag eraill mewn sefyllfaoedd cyffyrddus, cyfarwydd
- cynnal sgwrs ond bydd yn neidio o un testun i'r nesaf.

**Creu amgylchedd sy'n galluogi:**

- ☑ Sicrhewch fod gennych ddewis o adnoddau i gefnogi chwarae cymeriadau ac actio arferion.
- ☑ Sicrhewch fod gennych ddewis o adnoddau i actio straeon a senarios chwarae byd bach.
- ☑ Sicrhewch fod ardaloedd yn y ddarpariaeth wedi eu diffinio'n glir, tu mewn a thu allan.
- ☑ Arsylwch ar sut mae plant yn rhyngweithio â'r amgylchedd dysgu ffisegol.

**STRATEGAETHAU i ddatblygu chwarae a rhyngweithio:**


- Gadewch i'r plentyn arwain y chwarae.
- Disgrifiwch beth mae'r plentyn yn ei wneud wrth chwarae.
- Modelwch y cam nesaf er mwyn datblygu chwarae dilyniannol e.e. os yw'r plentyn yn rhoi bath i Doli, gallwch fodelu gwisgo Doli.
- Siaradwch am yr hyn yr ydych yn ei wneud 'nawr' a 'nesaf'.
- Anogwch nhw i sylwi ar chwarae plant eraill ac i ymuno mewn pâr neu gymryd tro gyda phlentyn arall.

Efallai y bydd angen i oedolion fodelu'r 'chwarae' ac annog rhyngweithio.

**CHWARAE GYDA FI...edrychwch ar rai o'r gweithgareddau a awgrymir ar dudalen 80**

Gwisgo Doli








Dere i ymuno

# Deall Iaith Lafar

## 2 flwydd i 2 flwydd 11 mis oed




**Mae deall iaith lafar (iaith dderbyngar) yn hollbwysig er mwyn i blant wneud synnwyr o'r byd o'u cwmpas.** Mae'n cynnwys y gallu i ddeall geiriau, brawddegau a chyfathrebu dieiriau pobl/plant eraill. Mae plant yn dysgu datblygu dealltwriaeth o eiriau a brawddegau mewn camau; un gair yn gyntaf, yna nifer o eiriau unigol, yna brawddegau byr ac yna brawddegau hirach, mwy cymhleth

**Rhwng 2 flwydd a 2 flwydd 11 mis oed efallai y sylwch chi fod y plentyn yn……**

- datblygu dealltwriaeth o gysyniadau syml gan gynnwys '*yn/ar/o dan*' a '*mawr/bach*'
- deall cyfarwyddiadau syml e.e. '*rho Tedi yn y bocs*'
- deall cwestiynau *'pwy?' 'beth?' a 'ble?'* syml ond nid cwestiynau *'pam?'*
- deall geiriau gwneud (berfau) bob dydd e.e. *cysgu, cerdded, rhedeg* trwy ddangos i chi neu ddweud wrthych
- deall stori syml pan fydd lluniau i'w chefnogi.

**Creu amgylchedd sy'n galluogi:**

- ☑ Labelwch adnoddau'n glir gyda ffotograffau/lluniau.
- ☑ Defnyddiwch gyfarwyddiadau gweledol a lluniau clir i gefnogi dealltwriaeth e.e. golchi dwylo.
- ☑ Defnyddiwch gymhorthion gweledol i symud rhwng gweithgareddau e.e. Lluniau 'Nawr a Nesaf'.
- ☑ Defnyddiwch linellau amser gweledol syml i gefnogi arferion bob-dydd.
- ☑ Defnyddiwch sefyllfaoedd a gwrthrychau go iawn i gyflwyno geirfa newydd.

**STRATEGAETHAU i ddatblygu dealltwriaeth o iaith lafar:**


- Mynnwch sylw'r plentyn cyn siarad â nhw e.e. defnyddiwch eu henw.
- Symleiddiwch eich iaith wrth chwarae/rhyngweithio dan arweiniad plant.
- Rhowch gyfarwyddiadau byr, clir.
- Pwysleisiwch y geiriau allweddol gan ddefnyddio'ch llais, ystumiau neu arwydd.
- Dangoswch i'r plentyn beth i'w wneud os nad ydynt yn deall cyfarwyddyd.
- Sicrhewch fod plant yn gwybod enwau gwrthrychau cyn rhoi cyfarwyddyd.

⌛ **Rheol 10 Eiliad!**
Rhowch amser i'r plentyn i brosesu cyfarwyddyd neu gwestiwn.

**CHWARAE GYDA FI…edrychwch ar rai o'r gweithgareddau a awgrymir ar dudalen 82**

**Mae Seimon yn dweud rhedwch!**






**Mae Seimon yn dweud neidiwch!**

## Defnyddio Iaith Lafar

## 2 flwydd i 2 flwydd 11 mis oed




**Defnyddio iaith lafar (iaith fynegiannol) yw'r gallu i atgofio geiriau a gwybodaeth a defnyddio iaith, iaith y corff ac ystumiau yn briodol mewn sefyllfaoedd penodol e.e. i labelu/enwi gwrthrychau, disgrifio symudiadau a digwyddiadau, holi ac ateb cwestiynau ac ail-ddweud stori.** Mae geirfa dda yn hollbwysig i blant er mwyn iddynt allu mynegi eu meddyliau a'r hyn y maent ei angen a'i eisiau.

**Rhwng 2 flwydd a 2 flwydd 11 mis oed efallai y sylwch chi fod y plentyn yn……**

- Rhoi 3-4 gair, neu fwy, at ei gilydd i wneud brawddeg e.e. *'moyn mwy o laeth'*
- Defnyddio rhai geiriau disgrifio e.e. *mawr, brwnt, twym*
- Dechrau defnyddio strwythurau gramadegol e.e. *fe, hi, fi* a geiriau lluosog
- Defnyddio rhai arddodiaid e.e. *yn, ar, o dan*
- Holi cwestiynau *pwy? beth? ble?* syml

**Creu amgylchedd sy'n galluogi:**

- ☑ Sylwch ar ddiddordebau'r plentyn - ychwanegwch adnoddau i ddatblygu chwarae ac annog iaith.
- ☑ Sicrhewch fod mathau gwahanol o lyfrau ar gael e.e. llyfrau synhwyraidd (sŵn, teimlo); llyfrau rhyngweithiol â fflapiau; straeon sy'n odli; llyfrau bwrdd...
- ☑ Adroddwch straeon a chanwch ganeuon a rhigymau'n rheolaidd - ychwanegwch bypedau, propiau ac offerynnau cerdd ac anogwch blant i ymuno e.e. gyda chymalau sy'n ailadrodd.

**STRATEGAETHAU i ddatblygu'r defnydd o iaith lafar:**


- ARHOSWCH! Rhowch amser i'r plentyn i brosesu a threfnu ei syniadau.
- Anogwch y plentyn i ddechrau'r sgwrs h.y. gadewch i nhw siarad yn gyntaf
- Enwch wrthrychau wrth chwarae ar y cyd, yn hytrach na gofyn *'Beth yw hwn?'*
- Ychwanegwch air at yr hyn mae'r plentyn yn ei ddweud e.e. os yw'r plentyn yn dweud, *'car'* gallwch chi ddweud *'Ie, car **mawr.**'*
- Modelwch ramadeg gywir yn lle dweud wrth y plentyn eu bod yn anghywir e.e. os yw'r plentyn yn dweud, *'Beth hwnna fanna?,* gallwch chi ddweud *'Beth yw hwn?''______ yw hwn.'*

Dilynwch arweiniad y plentyn.

**CHWARAE GYDA FI... edrychwch ar rai o'r gweithgareddau a awgrymir ar dudalen 84**

**Beth sydd yn y bag?**






**Chwarae bob-dydd**

# Lleferydd

## 2 flwydd i 2 flwydd 11 mis oed




**Mae lleferydd (ffonoleg) yn cyfeirio at y gallu i ddweud synau lleferydd i wneud eich hun yn ddealladwy. Pan fyddwn yn gwrando ar blentyn yn siarad, gallwn feddwl am pa mor glir yw ei eiriau. Nid yw *lleferydd* yr un peth â *siarad.***

Erbyn 2 ½ flwydd oed, fel arfer mae teulu agos yn gallu deall lleferydd plentyn. Erbyn 3 blwydd oed, fel arfer mae oedolion cyfarwydd tu allan i'r cartref yn gallu deall lleferydd plentyn ond ni fydd yn berffaith.

Defnyddiwch y **Poster Datblygiad Synau Lleferydd Saesneg** sydd ar dudalen 75 a'r Speech acquisition - Multilingual Children's Speech (csu.edu.au) i gefnogi eich arsylwadau.

**Creu amgylchedd sy'n galluogi:**

- ☑ Lleihewch bethau sy'n tynnu sylw e.e. symudiadau, sŵn, pethau gweledol sy'n tynnu sylw.
- ☑ Sicrhewch fod gennych ardaloedd/weithgareddau heb unrhyw beth i dynnu sylw er mwyn i'r plant ganolbwyntio ar wrando ar synau.
- ☑ Cofiwch gynnwys caneuon a rhigymau fel rhan o'r drefn ddyddiol.
- ☑ Rhannwch lawer o straeon - anogwch blant i ymuno wrth iddynt wrando.

**STRATEGAETHAU i ddatblygu lleferydd clir:**

- Peidiwch â dweud wrth y plentyn eu bod wedi dweud rhywbeth yn anghywir na rhoi pwysau arnynt i'w ailadrodd.
- Ailadroddwch eiriau aneglur gan ddefnyddio'r synau cywir er mwyn i'r plentyn **glywed** y ffordd gywir o'u dweud e.e. os yw plentyn yn dweud *'**t**ath'* mae'r oedolyn yn dweud, *'ie, **c**ath yw hi'.*
- Peidiwch ag esgus deall - anogwch y plentyn i ddefnyddio ystumiau er mwyn cyfleu eu neges a gofynnwch iddynt ddangos i chi beth maent ei eisiau.
- Ewch i lawr i lefel y plentyn, wyneb-yn-wyneb, fel bod y plentyn yn gallu gweld sut rydych chi'n gwneud synau - peidiwch â disgwyl iddynt eich copïo.

Ymatebwch i'r geiriau maent yn eu dweud, ac nid pa mor glir ydynt.


**GWEITHGAREDDAU A AWGRYMIR i gefnogi datblygiad lleferydd:**

- Ewch am 'dro gwrando' (gwrandewch a siaradwch am y synau amgylcheddol).
- Gwrandewch ar synau o amgylch y lleoliad.
- Sylwch ar odli - adroddwch a chanwch rigymau bob dydd.

**Mae'n bwrw glaw yn sobor iawn...**



**Gwnewch synau swnllyd a thawel**



**Bydd gweithgareddau a awgrymir yn yr holl feysydd cyfathrebu eraill yn cefnogi datblygiad lleferydd ar yr oed hwn.**

**Mae sylw'n dilyn dilyniant datblygiadol:**

| 0 i 11 mis | 8 i 20 mis | 22 i 36 mis |
|---|---|---|
| **Sylw'n Mynd a Dod**<br>Hawdd tynnu ei sylw a sylw'n mynd a dod o un peth i'r nesaf. | **Sylw Anhyblyg**<br>Gall ganolbwyntio ar un dasg o'u dewis eu hunain, ac ni all oddef oedolyn yn torri ar eu traws | **Sylw sianel sengl**<br>Bydd yn rhoi sylw i gyfarwyddyd gan oedolyn.<br>Methu ag ymdopi â gwneud un peth a gwrando ar gyfarwyddyd am rywbeth arall. |
| **30 i 50 mis** | **40 i 60 mis** | **60 mis +** |
| **Ffocysu'r sylw**<br>Dechrau rheoli ei ffocws ei hun.<br>Gall ganolbwyntio ar un peth ar y tro (y dasg neu'r cyfarwyddyd sydd ddim yn gysylltiedig).<br>Gall newid ffocws ei sylw'n annibynnol. | **Sylw dwy sianel**<br>Gall ymgymryd â thasg a deall cyfarwyddyd ar yr un pryd.<br>Gall ei sylw fod yn fyr ond nawr gellir eu haddysgu mewn grŵp. | **Sylw integredig**<br>Mae'r sylw wedi'i reoli, ei gynnal a'i sefydlu'n dda ar draws sefyllfaoedd gwahanol, gyda phobl wahanol. |

- **Efallai y bydd rhai plant yn gweithredu ar lefel sy'n is na'u hoed cronolegol**
- **Ni all plant ddatblygu eu sgiliau lleferydd, iaith a chyfathrebu os nad ydynt yn gallu talu sylw neu wrando**

## Mae sgiliau chwarae yn dilyn dilyniant datblygiadol:

**Chwarae archwiliadol (geni tan tua 5 mis oed):** Ysgwyd, cega, taro a throi teganau a gwrthrychau eraill drosto er mwyn ceisio darganfod beth ydynt. Tua 9 mis oed, bydd yn edrych am wrthrych sydd wedi cael ei guddio (mae'n deall sefydlogrwydd gwrthrych).
**Adnabod gwrthrychau (tua 12 mis):** Mae'n dangos dealltwriaeth o'r defnydd priodol o wrthrych heb esgus e.e. defnyddio brwsh ar eu gwallt.

**Chwarae gyda gwrthrychau (rhwng 8 ac 20 mis):** Esgus defnyddio gwrthrych arnyn nhw eu hunain e.e. defnyddio cwpan tegan i yfed.

**Chwarae cymeriadau (rhwng 16 a 26 mis):** Defnyddio cymeriadau tegan yn eu chwarae e.e. rhoi diod i'r dinosor.

**Efelychu arferion (tua 22 i 36 mis):** Mae'n efelychu arferion syml trwy chwarae e.e. rhoi bath i'r doli a'u gwisgo'n barod i'r gwely. Mae chwarae byd bach yn dod yn fwy cymhleth ac efelychir senarios a straeon. Mae'n defnyddio gwrthrychau'n ddychmygus e.e. gallai bocs fod yn gar/wely.

**Chwarae rôl (tua 3 i 4 blwydd oed):** Gwisgo i fyny'n syml i ddechrau, ac yna'n raddol yn chwarae rôl fwy dychmygus y cymeriad cyfan.

**Chwarae dychmygus cymhleth a chydweithredol (4 blwydd oed +):** Mae'n efelychu dilyniannau y mae'n eu gweld yn eu hamgylchedd, mewn llyfrau ac ar y teledu e.e. arferion y cartref.

## Mae sgiliau rhyngweithio yn adeiladu wrth chwarae ac yn cynnwys y gallu i chwarae'n gydweithredol gyda chyfoedion a chymryd tro:

| 0 i 9 mis | 9 i 18 mis | 18 mis i 3 blwydd oed |
|---|---|---|
| Mae rhyngweithiadau yn dechrau ac y gorffen gyda chyswllt llygaid babi, e.e. gemau fel pi-po. | Bydd y plentyn yn dechrau rhyngweithiadau gyda geiriau a heb eiriau e.e. pwyntio, rhoi a dangos. Gallai'r rhyngweithio orffen wrth i'r plentyn symud i ffwrdd. Rhyngweithiadau wedi eu cyfyngu at 1 neu 2 dro i bob partner. | Gall rhyngweithiadau ddechrau trwy ddefnyddio enw e.e. *'Mami'.* Mae'n dechrau ymateb i gwestiynau gyda geiriau. Mae'n ailadrodd neu'n newid ei (l)lefaru os nad ydyw wedi cael ei (d)deall. Efallai y bydd rhyngweithiadau wedi eu cyfyngu at sefyllfaoedd cyffyrddus, cyfarwydd. |
| **3 i 4 blwydd oed** | **4 i 7 blwydd oed** | **7 blwydd oed +** |
| Mae ganddynt ddewis o strategaethau i ddechrau sgwrsio e.e. *'Ti'n gw'bod beth?'* Nifer y troeon mewn sgwrs yn cynyddu. Gall gyfathrebu'n well gyda phobl ddieithr. Gall gymryd rhan mewn sgyrsiau sy'n chwarae rôl. Mae'n defnyddio iaith eang ar gyfer amrywiaeth o swyddogaethau e.e. holi cwestiynau, gwneud awgrymiadau, rhoi cyfarwyddyd i eraill. | Gall ddechrau a diweddu sgyrsiau a chymryd tro yn well. Mae'n dysgu dewis yr amseriad mwyaf addas i ymuno yn sgyrsiau pobl eraill. Mae'r plentyn yn dal i feddwl bod y gwrandäwr yn rhannu ei (g)wybodaeth gefndir. Mae'n dysgu addasu arddulliau sgyrsiau ar gyfer amrywiaeth o wrandawyr e.e. teulu, ffrindiau, ac athrawon. | Mae'n dod yn fwy ymwybodol o'r gwrandäwr a'i (g)wybodaeth gefndir. Mae'n cyfleu elfennau craff gyda goslef a phwyslais. Mae'n defnyddio iaith i berswadio, cyfleu anghymeradwyaeth ac er mwyn bod yn gwrtais. Mae'n datblygu addasrwydd cymdeithasol. |

**Mae Deall Iaith Lafar (iaith dderbyngar) yn dilyn dilyniant a gydnabyddir:**

| | | |
|---|---|---|
| **Geni**<br>Ymateb i synau (geiriol neu ddieiriau).<br>Ymateb i oslef ac emosiwn mewn lleisiau. | **6 mis**<br>Mae'n deall ymadroddion cyfan pan fyddant yn cael eu defnyddio mewn arferion cyfarwydd. | **12 mis**<br>Mae'n deall geiriau allweddol mewn sefyllfaoedd cyfarwydd (yn aml gelwir hyn yn ddealltwriaeth sefyllfaol). |
| **18 mis**<br>Mae'n deall enwau gwrthrychau sy'n absennol pan fyddant yn cael eu defnyddio mewn brawddegau cyfarwydd ar unrhyw adeg. | **2 flwydd oed**<br>Mae'n gallu ffurfio cysylltiad rhwng dau wrthych sy'n cael eu henwi.<br>Mae'n gallu adnabod gwrthrychau wrth ddisgrifio'r defnydd ohonynt. | **2 ½ flwydd oed**<br>Mae'n deall gweithredoedd syml a phriodoleddau sydd ddim yn ymwneud ag ef/hi ei hun.<br>Mae'n deall arddodiaid syml, e.e. *dan, ar, trwy* a chysyniadau maint syml, e.e. *mawr, bach,* pan fyddant yn cael eu defnyddio mewn brawddegau syml.<br>Mae'n dechrau deall 'amser' fel cyfeiriad at y gorffennol neu'r dyfodol agos. |
| **3 blwydd oed**<br>Mae'n ffurfio cysylltiad rhwng hyd at dri gair mewn brawddeg pan na fydd unrhyw gliwiau eraill i helpu.<br>Mae'n dechrau deall amser, e.e. *Rydyn ni <u>wedi bod</u> i'r siop; Rydyn ni'n <u>mynd</u> i'r siop.*<br>Mae'n deall cysyniadau syml siâp a lliw pan fyddant yn cael eu defnyddio mewn brawddegau syml. | **4 blwydd oed**<br>Mae'n dilyn dilyniant stori syml.<br>Mae'n deall y rhan fwyaf o frawddegau syml.<br>Mae'n parhau i elwa ar gliwiau sefyllfaol. | **5 mlwydd oed +**<br>Yn raddol, mae'n deall brawddegau mwy cymhleth allan o'u cyd-destun.<br>Mae eu geirfa dderbyngar yn parhau i ddatblygu. |

**Mae Defnyddio Iaith Lafar (iaith fynegiannol) yn dilyn dilyniant a gydnabyddir:**

| **9 mis** | **18 mis** | **2 flwydd oed** |
|---|---|---|
| Parablu, ymgais gynnar i ddweud geiriau e.e. *'Dada'* | Mae'n defnyddio tua 50 i 100 o eiriau gyda geiriau y gellir eu hadnabod yn well.<br>Weithiau mae'n defnyddio ymadroddion dau-air a ddysgodd e.e. *'wedi mynd'* | Mae'n defnyddio tua 200 i 300 o eiriau.<br>Mae'n rhoi 2 a 3 gair gyda'i gilydd mewn brawddegau byr e.e. *'Fi mynd adref'*. |
| **2 ½ flwydd oed** | **3 blwydd oed** | **3 ½ blwydd oed** |
| Mae'n rhoi brawddegau 3 a 4 gair at ei gilydd gan ddefnyddio mathau gwahanol o eiriau.<br>Mae'n dechrau defnyddio 'geiriau cwestiwn' e.e. *'Fi mynd fanna?'* | Mae'n cysylltu mwy na 4 gair at ei gilydd.<br>Mae'n dechrau defnyddio *'a'* i gysylltu syniadau.<br>Mae'n dechrau defnyddio rhagenwau, *'fi'*, *'fe'*, *'hi'* a geiriau lluosog e.e. '*Fi moyn sudd a losins.'* | Mae'n cysylltu syniadau at ei gilydd gan ddefnyddio *'achos'* e.e. *'Fi'n gwisgo welis achos mae'n bwrw glaw.'*<br>Mae'n holi cwestiynau mwy cymhleth gan ddefnyddio *'pam'* a *'fel'*. |
| **4 blwydd oed** | | **4 ½ blwydd oed** |
| Mae'n defnyddio iaith am amrywiaeth o resymau e.e. er mwyn ailadrodd hoff straeon, chwarae gêmau dychmygus ac ailadrodd digwyddiadau.<br>Mae'n siarad i ddatrys problemau a ffurfio cyfeillgarwch.<br>Mae'n holi llawer o gwestiynau er mwyn darganfod mwy o wybodaeth. | | Mae gan blant eirfa o tua 5000 o eiriau a mwy. |

## Datblygiad Nodweddiadol Lleferydd


| 2 flwydd 10 mis oed – 3 blwydd 10 mis oed | 3 blwydd 10 mis oed – 5 blwydd 1 mis oed | 5 blwydd 2 mis oed – 7 blwydd 3 mis oed |
|---|---|---|
| Bydd 50% o leferydd plentyn yn ddealladwy i oedolion anghyfarwydd | Bydd 75% o leferydd plentyn yn ddealladwy i oedolion anghyfarwydd | Bydd 90% o leferydd plentyn yn ddealladwy i oedolion anghyfarwydd |

Hustad, Mahr, Natke and Rathouz (2021)

- **Mae gan synau lleferydd ddilyniant datblygiadol**
- **Mae synau lleferydd yn amrywio o iaith i iaith.**
- **Gallai plant sy'n dysgu mwy nag un iaith ddatblygu synau lleferydd mewn trefn wahanol.**
- **Gweler** Speech acquisition - Multilingual Children's Speech (csu.edu.au) **am fwy o wybodaeth.**

## Poster Datblygiad Synau Lleferydd Saesneg


**(Nid oes unrhyw wybodaeth am y normau ar gyfer datblygiad synau lleferydd yn y Gymraeg)**



## Posteri Strategaethau a Gweithgareddau a Awgrymir

Yn yr adran hon, fe welwch chi bosteri strategaethau a gweithgareddau a awgrymir i'ch arwain chi wrth gynllunio i ddatblygu agweddau penodol ar Leferydd, Iaith a Chyfathrebu'r plentyn.


Rhoddir y gweithgareddau a awgrymir fel enghreifftiau; defnyddiwch eich profiadau a'ch syniadau i'w cyfoethogi. Ni fwriedir i'r gridiau fod yn rhaglen benodol, anhyblyg; ond, gellir defnyddio'r syniadau i gefnogi targedau wedi'i bersonoli, fel sy'n briodol. Gallwch ddefnyddio bocset *'Early Talkers'* hefyd i gael mwy o syniadau ond nid yw hwn ar gael yn Gymraeg (ar gael ar speechandlanguage.org.uk).




**Strategaethau i ddatblygu sylw a gwrando:**

- Sicrhewch eich bod wyneb-yn-wyneb ar lefel y plentyn.
- Defnyddiwch enw'r plentyn i gael eu sylw.
- Dilynwch arweiniad y plentyn a siaradwch am eu chwarae.
- Arhoswch nes bod y plentyn yn edrych arnoch cyn siarad.
- Siaradwch yn glir, yn bwyllog ac yn araf. Gadewch ddigon o amser i feddwl.
- Defnyddiwch oslef a mynegiant wyneb diddorol.
- Gwobrwywch enghreifftiau o dalu sylw i weithgaredd ar y cyd.
- Defnyddiwch frawddegau byr, syml.

Sicrhewch fod pob oedolyn yn MODELU ac yn CANMOL sylw a gwrando da.





Dangosir pob strategaeth ar boster.

Efallai yr hoffech rannu'r posteri hyn gyda rhieni.

**PWYSIG:**

Defnyddiwch y strategaethau a awgrymir yn eich rhyngweithiadau trwy gydol y dydd.


Efallai yr hoffech ddefnyddio'r gweithgareddau a awgrymir i gefnogi sgiliau yn y maes hwn.



| Gweithgaredd | Sylw a Gwrando - Gweithgareddau a Awgrymir (2 flwydd i 2 flwydd 11 mis oed) | Rhy anodd? | Rhy hawdd? |
|---|---|---|---|
| **Jac yn y Bocs!** | ***Gwrando am synau cyn ymateb gyda symudiad.*** **Sut i chwarae:** Dewiswch sŵn y mae'n rhaid i'r plentyn wrando amdano, fel signal. Anogwch y plentyn i fynd i lawr ar eu cwrcwd neu gyrlio i mewn i belen. Pan fyddant yn clywed y sŵn, gallant neidio i fyny - fel Jac yn y bocs! Gallech chwarae'r gêm hon tu allan a'i hamrywio'n hawdd e.e. cuddio a neidio o du ôl i goed. | Defnyddiwch sŵn mwy swnllyd a haws ei adnabod. | Defnyddiwch sŵn tawelach. |
| **Ewch!** | ***Anogwch y plentyn i ganolbwyntio ac i wrando ar gyfarwyddyd cyn cwblhau gweithgaredd.*** **Sut i chwarae:** Sicrhewch fod gennych ddewis o wrthrychau a bocs neu fasged. Anogwch y plentyn i ddewis gwrthrych. Bob tro y byddwch yn dweud *'ewch'* , maent yn taflu'r gwrthrych i mewn i'r bocs/fasged. Canmolwch y plant am wrando/aros (hyd yn oed os nad ydynt yn cael y gwrthrych i mewn i'r bocs) e.e. *'Gwrando da'; 'Aros da'*. | Defnyddiwch ystum/signal gweledol a galwch eu henw cyn i chi ddweud 'ewch'. Daliwch eu llaw gyda'r gwrthrych yn ysgafn a gadewch iddo fynd wrth i chi ddweud '*ewch!*'. | Rhowch nifer o wrthrychau i'r plentyn. Rhaid iddynt wrando er mwyn i chi ddweud pa un ddylent ei daflu i mewn i'r bocs. |
| **Gwrando ar Synau** | ***Canolbwyntio ar synau yn yr amgylchedd.*** Cyn deall a chanolbwyntio ar eiriau, mae'n bwysig fod plant yn dysgu meithrin diddordeb mewn synau sydd o'u cwmpas. **Sut i chwarae:** Ewch am 'Dro Gwrando' o amgylch y lleoliad a'r ardal leol. Tynnwch sylw at synau penodol gan beiriannau, gwrthrychau, anifeiliaid ayb. a sŵn pobl yn siarad. Enwch y synau ac anogwch y plant i'w dynwared. | Ewch i ardaloedd tawelach lle mae'n haws sylwi ar synau. | Symudwch i ardaloedd mwy swnllyd. Ydy'r plant yn gallu adnabod synau gwahanol? |
| **Amser Stori** | ***Gwrando ar stori gyfarwydd, ailadroddus.*** Ymuno gydag ystumiau, geiriau neu gymalau. **Beth i'w wneud:** Darllenwch hoff stori gyda dilyniant syml o ddigwyddiadau e.e. 'Y Dyn Bach Sinsir', neu ''Dyn ni yn mynd i hela arth'. Anogwch y plant i ymuno yn y cymalau sy'n cael eu hailadrodd. Gallech oedi i annog y plant i gwblhau cymal cyfarwydd e.e. *''Dyn ni yn mynd i hela ___'*. | Defnyddiwch brompitau gweledol er mwyn dangos i'r plentyn pryd i lenwi gair. Oedwch yn hirach a defnyddiwch bwyslais yn eich llais. | Defnyddiwch bren lolipop neu bypedau bys/masgiau er mwyn i'r plentyn eu dal i fyny wrth i'w cymeriad siarad. |
| **Gêm Siopa** | ***Ymuno mewn gêm siopa syml.*** Gwrando ar gyfarwyddiadau gan eraill a chymryd tro. **Sut i chwarae:** Gosodwch siop chwarae gyda theganau ac eitemau go iawn i'w prynu. Anogwch y plant i gymryd tro fel perchennog y siop a'r un sy'n siopa. Anogwch yr un sy'n siopa i ofyn am eitemau. Efallai y bydd angen i chi fodelu hyn yn gyntaf. Gallech addasu'r gêm hon a chwarae helfa drysor yn yr awyr agored gan ddefnyddio rhestrau gweledol o 'drysorau' i'w darganfod e.e. pluen, deilen, pren. Gallai plant gasglu eu trysorau er mwyn dangos i eraill beth maent wedi eu darganfod. | Rhowch restr siopa weledol i'r plentyn. Lleihewch nifer yr eitemau er mwyn helpu'r plentyn i ddewis. | Gofynnwch am eitem sydd ddim ar gael neu rhowch air 'dwl' i mewn i weld os fyddant yn sylwi ac yn eich cywiro! |

## Sylw a Gwrando – STRATEGAETHAU ALLWEDDOL 2 flwydd i 2 flwydd 11 mis oed

**Sicrhewch fod pob oedolyn yn MODELU ac yn CANMOL ymddygiadau sylw a gwrando da.**



| Gweithgaredd | Sylw a Gwrando - Gweithgareddau a Awgrymir (2 flwydd i 2 flwydd 11 mis oed) | Rhy anodd? | Rhy hawdd? |
|---|---|---|---|
| **Jac yn y Bocs!** | ***Gwrando am synau cyn ymateb gyda symudiad.***<br>**Sut i chwarae:** Dewiswch sŵn y mae'n rhaid i'r plentyn wrando amdano, fel signal. Anogwch y plentyn i fynd i lawr ar eu cwrcwd neu gyrlio i mewn i belen. Pan fyddant yn clywed y sŵn, gallant neidio i fyny - fel Jac yn y bocs! Gallech chwarae'r gêm hon tu allan a'i hamrywio'n hawdd e.e. cuddio a neidio o du ôl i goed. | Defnyddiwch sŵn mwy swnllyd a haws ei adnabod. | Defnyddiwch sŵn tawelach. |
| **Ewch!** | ***Anogwch y plentyn i ganolbwyntio ac i wrando ar gyfarwyddyd cyn cwblhau gweithgaredd.***<br>**Sut i chwarae:** Sicrhewch fod gennych ddewis o wrthrychau a bocs neu fasged. Anogwch y plentyn i ddewis gwrthrych. Bob tro y byddwch yn dweud *'ewch'* , maent yn taflu'r gwrthrych i mewn i'r bocs/fasged. Canmolwch y plant am wrando/aros (hyd yn oed os nad ydynt yn cael y gwrthrych i mewn i'r bocs) e.e. *'Gwrando da'; 'Aros da'.* | Defnyddiwch ystum/signal gweledol a galwch eu henw cyn i chi ddweud 'ewch'. Daliwch eu llaw gyda'r gwrthrych yn ysgafn a gadewch iddo fynd wrth i chi ddweud '*ewch!*'. | Rhowch nifer o wrthrychau i'r plentyn. Rhaid iddynt wrando er mwyn i chi ddweud pa un ddylent ei daflu i mewn i'r bocs. |
| **Gwrando ar Synau** | ***Canolbwyntio ar synau yn yr amgylchedd.*** Cyn deall a chanolbwyntio ar eiriau, mae'n bwysig fod plant yn dysgu meithrin diddordeb mewn synau sydd o'u cwmpas.<br>**Sut i chwarae:** Ewch am 'Dro Gwrando' o amgylch y lleoliad a'r ardal leol. Tynnwch sylw at synau penodol gan beiriannau, gwrthrychau, anifeiliaid ayb. a sŵn pobl yn siarad. Enwch y synau ac anogwch y plant i'w dynwared. | Ewch i ardaloedd tawelach lle mae'n haws sylwi ar synau. | Symudwch i ardaloedd mwy swnllyd. Ydy'r plant yn gallu adnabod synau gwahanol? |
| **Amser Stori** | ***Gwrando ar stori gyfarwydd, ailadroddus.*** Ymuno gydag ystumiau, geiriau neu gymalau.<br>**Beth i'w wneud:** Darllenwch hoff stori gyda dilyniant syml o ddigwyddiadau e.e. 'Y Dyn Bach Sinsir', neu ''Dyn ni yn mynd i hela arth'. Anogwch y plant i ymuno yn y cymalau sy'n cael eu hailadrodd. Gallech oedi i annog y plant i gwblhau cymal cyfarwydd e.e. *''Dyn ni yn mynd i hela ___'.* | Defnyddiwch bromptiau gweledol er mwyn dangos i'r plentyn pryd i lenwi gair. Oedwch yn hirach a defnyddiwch bwyslais yn eich llais. | Defnyddiwch bren lolipop neu bypedau bys/masgiau er mwyn i'r plentyn eu dal i fyny wrth i'w cymeriad siarad. |
| **Gêm Siopa** | ***Ymuno mewn gêm siopa syml.*** Gwrando ar gyfarwyddiadau gan eraill a chymryd tro.<br>**Sut i chwarae:** Gosodwch siop chwarae gyda theganau ac eitemau go iawn i'w prynu. Anogwch y plant i gymryd tro fel perchennog y siop a'r un sy'n siopa. Anogwch yr un sy'n siopa i ofyn am eitemau. Efallai y bydd angen i chi fodelu hyn yn gyntaf. Gallech addasu'r gêm hon a chwarae helfa drysor yn yr awyr agored gan ddefnyddio rhestrau gweledol o 'drysorau' i'w darganfod e.e. pluen, deilen, pren. Gallai plant gasglu eu trysorau er mwyn dangos i eraill beth maent wedi eu darganfod. | Rhowch restr siopa weledol i'r plentyn. Lleihewch nifer yr eitemau er mwyn helpu'r plentyn i ddewis. | Gofynnwch am eitem sydd ddim ar gael neu rhowch air 'dwl' i mewn i weld os fyddant yn sylwi ac yn eich cywiro! |

## Chwarae a Rhyngweithio – STRATEGAETHAU ALLWEDDOL 2 flwydd i 2 flwydd 11 mis oed

**Efallai y bydd angen i oedolion fodelu'r chwarae ac annog rhyngweithio.**

Modela gam nesaf y dilyniant chwarae i fi.


Disgrifia beth rwy'n ei wneud.

Siarada â fi am yr hyn rwyt ti'n ei wneud nawr a nesaf.

Gad i fi arwain y chwarae.

Anoga fi i gymryd tro.





| Gweithgaredd | Chwarae a Rhyngweithio - Gweithgareddau a Awgrymir (2 flwydd i 2 flwydd 11 mis oed) | Rhy anodd? | Rhy hawdd? |
|---|---|---|---|
| **Wyt ti'n gallu gwneud fel dw i'n ei wneud?** | ***Datblygu ac ymestyn chwarae dychmygus.*** Dysgu rhoi dilyniannau chwarae at ei gilydd *e.e. rhoi bath i Doli, gwisgo Doli a rhoi Doli yn y gwely.*<br><br>**Sut i chwarae:** Bydd arnoch angen dwy set o adnoddau e.e. dwy ddoli, dau fath a dwy set o ddillad gwely. Modelwch Doli yn paratoi i fynd i'r gwely ac anogwch y plentyn i ymuno gyda'u doli nhw e.e. 'Beth am roi bath i Doli?; nawr beth am wisgo Doli yn barod i fynd i'r gwely...?'. | Lleihewch y dilyniant i ddau gam. | Ychwanegwch fwy o gamau i'r dilyniant chwarae e.e. brwsio gwallt ayb. |
| **Dere i ymuno.** | ***Dysgu chwarae gyda'ch gilydd - chwarae gêmau grŵp.*** Dysgu cymryd tro a chwarae gyda'u cyfoedion.<br><br>**Sut i chwarae:** Casglwch grŵp bach o blant at ei gilydd. Sicrhewch fod gennych amrywiaeth o bropiau i gyfateb i rigymau neu ganeuon cyfarwydd e.e. Dau Gi Bach yn Mynd i'r Coed; Mi Welais Jac y Do ayb. Cefnogwch y plant i gymryd tro i ddewis prop - mae pob un yn canu ac yna'n gwneud y symudiadau gyda'i gilydd. Efallai y bydd angen i chi fodelu'n ofalus ar y dechrau a siarad â'r plant am gymryd tro ac ymuno. | Chwaraewch gyda grŵp llai o blant. Sicrhewch fod y plentyn yn eistedd wrth eich ymyl er mwyn i chi ei helpu. | Ehangwch hyn i gymryd dau neu dri thro yr un. |
| **Dewch i ni archwilio!** | ***Dysgu bod gwrthrychau yn gallu cynrychioli pethau eraill.*** Datblygu chwarae dychmygus a symbolaidd.<br><br>**Beth i'w wneud:** Darparwch amrywiaeth o wrthrychau bob-dydd e.e. bocsys cardfwrdd, tiwbiau, ffyn ayb. Trafodwch a modelwch ffyrdd gwahanol o ddefnyddio'r gwrthrychau a'r pethau y gallai'r gwrthrychau eu cynrychioli e.e. gallai bocs fod yn gwch. | Dangoswch a defnyddiwch un gwrthrych ar y tro mewn amrywiaeth o ffyrdd. | Darparwch ddefnyddiau ychwanegol e.e. llinyn, bandiau lastig, ffabrig i ymestyn y chwarae. |
| **Gêm rholio'r bêl.** | ***Cymryd tro a rhannu.*** Rhyngweithio gydag eraill mewn sefyllfa gyffyrddus, gyfarwydd.<br><br>**Sut i chwarae:** Casglwch grŵp bach at ei gilydd, naill ai tu mewn neu du allan, ac eisteddwch mewn cylch. Galwch enw'r plentyn, arhoswch iddynt edrych arnoch a rholiwch y bêl tuag atynt. Gofynnwch iddynt enwi plentyn y maent eisiau rholio'r bêl atynt. | Gallai'r plentyn ddewis pwy i rolio pêl atynt trwy edrych ar blentyn arall yn hytrach na defnyddio'u henw. | Parhewch i gymryd tro ac anogwch y plant i ddewis pobl wahanol i rolio'r bêl atynt. |
| **Pasio Tedi** | ***Gweithgaredd grŵp amser cylch lle mae plant yn cymryd tro i rannu rhywbeth maent yn ei hoffi.***<br><br>**Sut i chwarae:** Eisteddwch gyda grŵp bach o blant mewn cylch - dewiswch blant sy'n gyfarwydd â'i gilydd. Cymerwch dro i basio Tedi o amgylch ac anogwch y plant i rannu pethau maent yn eu hoffi pan fyddant yn dal Tedi. | Rhowch ddewisiadau a modelwch yr iaith i'r plentyn. | Ceisiwch gynnwys plant gwahanol yn y grŵp. |

## Deall Iaith Lafar – STRATEGAETHAU ALLWEDDOL 2 flwydd i 2 flwydd 11 mis oed

**Defnyddiwch y Rheol 10 eiliad! Rhowch amser i'r plentyn i brosesu cyfarwyddyd neu gwestiwn.**

Rho gyfarwyddiadau byr, clir i fi.

Gwna'n siŵr fy mod i'n gwybod enwau gwrthrychau cyn rhoi cyfarwyddyd i fi.

Defnyddia dy lais, ystumiau neu arwydd i bwysleisio geiriau allweddol.

Defnyddia iaith syml wrth chwarae gyda fi.

DANGOS i fi beth i'w wneud os nad ydw i'n deall.

Mynna fy sylw cyn i ti siarad â fi.



| Gweithgaredd | Deall Iaith Lafar - Gweithgareddau a Awgrymir (2 flwydd i 2 flwydd 11 mis oed) | Rhy anodd? | Rhy hawdd? |
|---|---|---|---|
| **Mae Tedi Eisiau** | ***Dechrau deall cymryd tro a chysyniadau syml e.e. mawr a bach.*** <br><br> **Sut i chwarae:** Defnyddiwch dedi mawr a thedi bach a detholiad o eitemau bob dydd. Chwaraewch gêm syml lle mae pawb yn cymryd tro i roi rhywbeth i tedi e.e., *'Mae tedi <u>mawr</u> eisiau'r llwy'. 'Mae tedi <u>bach</u> eisiau banana'.* | Canolbwyntiwch ar un cysyniad ar y tro (nid pethau cyferbyniol). Defnyddiwch *'mawr;* a *'ddim yn fawr'.* Pan fyddant yn deall 'mawr' cyflwynwch 'bach'. | Cyflwynwch gysyniadau eraill fel 'yn/ar/o dan'. |
| **Cuddio'r gwrthrych** | ***Dechrau deall ymadroddion syml.*** <br><br> **Sut i chwarae:** Casglwch ambell i eitem e.e. car, trên, tedi, doli a bocs. Chwaraewch gêm syml trwy ofyn i'r plentyn roi doli yn y bocs ayb. Efallai y bydd angen i chi ddangos i'r plant beth yw '*yn*' a defnyddio'r geiriau i gefnogi'r weithred. Ewch ymlaen i ddefnyddio 'ar' ac 'o dan' yn yr un ffordd. Gallwch roi cyfarwyddiadau syml mewn ardaloedd eraill yn y lleoliad hefyd e.e. rhowch y fuwch yn y cae; rhowch Doli ar y gadair. | Cyfyngwch ar y gwrthrychau sydd ar gael i'w rhoi yn/ar/o dan y bocs. | Cyflwynwch lefydd eraill i guddio'r gwrthrych e.e. ychwanegwch fasged neu fag. |
| **Rhannu llun** | ***Edrych ar luniau gyda'ch gilydd.*** Cefnogi dealltwriaeth o gwestiynau ***pwy, beth*** a ***ble.*** <br><br> **Beth i'w wneud:** Dewiswch lyfrau lluniau gyda golygfeydd o'r traeth, parc, cartref ayb. gyda theuluoedd ynddynt. Edrychwch ar y llyfr gyda'ch gilydd, a dywedwch beth rydych chi'n gallu ei weld yn y lluniau e.e., *'Rwy'n gallu gweld y bachgen yn chwarae gyda phêl', 'Rwy'n gallu gweld y ferch yn adeiladu castell tywod'.* <br><br> Wedi i chi siarad am y llun, dechreuwch holi cwestiynau syml e.e., *'<u>**Pwy**</u> sy'n adeiladu castell tywod?', <u>**Beth**</u> mae'r bachgen yn ei ddal?'.* Anogwch y plentyn i ddangos i chi - nid oes angen iddynt esbonio. <br><br> Gallech ddefnyddio sefyllfaoedd bob dydd yn y lleoliad i holi e.e., *'<u>**Ble**</u> allwn ni fynd i chwilio am falwod?'* | Dylai eich sylwadau ganolbwyntio ar ***pwy*** i ddechrau. | Cyflwynwch gwestiynau ***pwy, beth*** a ***ble***. |
| **Mae Seimon yn Dweud** | ***Helpu'r plant i ddeall berfau (geiriau gwneud) syml .*** <br><br> **Sut i chwarae:** Chwaraewch gêm o Mae Seimon yn Dweud er mwyn canolbwyntio ar ferfau (geiriau gwneud) e.e. *'Mae Seimon yn dweud **neidiwch**'; 'Mae Seimon yn dweud **cerddwch**';* Gallech hefyd ofyn i'r plentyn ddangos Tedi neu Doli yn ***cysgu/neidio/eistedd*** ayb. Gêm wych i'w chwarae yn yr awyr agored. | Modelwch y weithred, gyda Doli neu Tedi. Sicrhewch fod y plentyn yn gallu deall un ferf cyn ychwanegu berfau eraill. | Symudwch ymlaen at ddwy ferf e.e. 'Clapiwch eich dwylo *a* stampiwch eich traed'. |
| **Amser Stori** | ***Rhannu llyfrau a storïau*** <br><br> **Beth i'w wneud:** Rhannwch lyfrau lluniau a storïau cyfarwydd gyda'ch gilydd. Defnyddiwch bypedau a phropiau a holwch gwestiynau ***'pwy, beth, ble'*** syml i gefnogi dealltwriaeth y plant o'r stori. | Dewiswch hoff lyfrau a storïau a rhai sy'n gyfarwydd iawn. | Ydyn nhw'n gallu adrodd y stori i chi, yn eu geiriau eu hunain, gyda chymhorthion gweledol e.e. propiau a lluniau. |


## Defnyddio Iaith Lafar – STRATEGAETHAU ALLWEDDOL 2 flwydd i 2 flwydd 11 mis oed

**Cymerwch ran mewn sgyrsiau go iawn sy'n golygu rhywbeth i'r plentyn.**

Gad i fi *glywed* y ffordd gywir o ddweud rhywbeth - paid â dweud wrthyf fy mod yn anghywir.

ARHOSA!
Rho amser i fi feddwl.

Gad i fi ddweud wrthyt beth rydw i am ei ddweud.



Gad i fi arwain y chwarae.

Ychwanega air at yr hyn rwy'n ei ddweud.

| Gweithgaredd | Defnyddio Iaith Lafar - Gweithgareddau a Awgrymir (2 flwydd i 2 flwydd 11 mis oed) | Rhy anodd? | Rhy hawdd? |
|---|---|---|---|
| **Beth sydd yn y bag?** | ***Annog y plentyn i gyfuno geiriau.***<br><br>**Sut i chwarae:** Bydd angen bag a detholiad o wrthrychau bob dydd. Cymerwch dro i dynnu rhywbeth allan o'r bag ac enwi'r gwrthrych e.e., *'Mae gen i frws dannedd.'* Gallwch ddatblygu hyn trwy ychwanegu lliw neu faint y gwrthrych e.e., *'Dyma blât melyn.'* | Os yw'r plentyn yn dweud un gair, ailadroddwch yn ôl ac ychwanegwch air e.e., os yw'r plentyn yn dweud '***cwpan***' gallech chi ddweud ***'cwpan <u>coch</u>.'*** | Siaradwch am yr hyn mae'r gwrthrych yn ei wneud e.e. *'Brws dannedd, i lanhau ein dannedd.'* |
| **Chwarae bob dydd** | ***Defnyddio geiriau disgrifio wrth chwarae.***<br><br>**Beth i'w wneud:** Canolbwyntiwch ar eiriau sy'n disgrifio yn ystod sefyllfaoedd chwarae gwahanol e.e., yng nghornel y cartref gallwch siarad am fwyd ***poeth*** a llestri ***brwnt***; yn y pwll tywod mawr gallwch wneud cestyll tywod ***mawr*** neu ***fach***. | Rhowch ddewis i'r plentyn e.e. *'Ydy e'n **fawr** neu'n **fach**?'* | Ehangwch yr ystod o eiriau disgrifio. |
| **Te Parti'r Teganau** | ***Defnyddio rhagenwau priodol e.e. ef/ fe, hi, fi.***<br><br>**Sut i chwarae:** Gosodwch de parti ar gyfer y teganau gyda Doli, Tedi ac unrhyw hoff degan arall. Rhowch blât, fforc, cwpan ayb. i bob tegan a bwyd tegan. Modelwch y defnydd o'r rhagenw cywir e.e. *'Mae ganddi **hi** afal'*. Anogwch y plentyn i ddweud beth sydd gan bob tegan (gan ddefnyddio'r rhagenw cywir) e.e. *'Mae ganddo **fe/ef** fanana.'* | Canolbwyntiwch ar un rhagenw e.e. ***fe/ef.*** | Ymestynnwch yr amrywiaeth o ragenwau a ddefnyddir. |
| **Cuddio'r gwrthrych** | ***Dechrau defnyddio rhagenwau e.e. yn, ar, o dan.***<br><br>**Sut i chwarae:** Casglwch ambell i eitem e.e. car, trên, tedi, doli a bocs. Chwaraewch gêm syml trwy ofyn i'r plentyn roi 'Doli' ***yn*** y bocs ayb. Yna gofynnwch i'r plentyn ddweud wrthych ble i roi Doli. Ewch ymlaen i ddefnyddio '***ar***' ac '***o dan***' yn yr un ffordd,<br><br>Gallwch ddefnyddio gweithgareddau bob dydd er mwyn annog y plant i ddefnyddio rhagenwau e.e. gallai'r plant ddweud wrthych i roi'r 'plât ***ar*** y bwrdd'. | Canolbwyntiwch ar un rhagenw e.e. ***ar*** | Cyflwynwch ***yn, ar*** ac ***o dan.*** |
| **Pwy Sydd Yna?** | ***Annog y defnydd o gwestiynau pwy, beth a ble.***<br><br>**Sut i chwarae:** Cyfle i gael hwyl yn siarad ar y ffôn gyda'ch gilydd - modelwch sgyrsiau syml a chynnwys cwestiynau fel *'**Ble** wyt ti?' '**Pwy** weles di?'*. Anogwch y plant i holi cwestiynau syml i chi wrth iddynt siarad ar y ffôn. | Dechreuwch gydag un gair cwestiwn ac yna defnyddiwch eich llais i bwysleisio'r gair e.e. *'**<u>Pwy</u>** sydd yna?'* | Anogwch y plant i ddefnyddio cwestiynau ***pwy, beth*** a ***ble.*** |

## Lleferydd - STRATEGAETHAU ALLWEDDOL 2 flwydd i 2 flwydd 11 mis oed

**Ailadroddwch eiriau aneglur y plentyn yn ôl wrthynt gan ddefnyddio'r synau cywir.**

Ailadrodda fy ngeiriau aneglur gan ddefnyddio'r synau cywir er mwyn i fi eu *clywed.*

Paid ag esgus dy fod yn deall. Gofyn i fi ddefnyddio ystumiau neu ddangos i ti beth rydw i ei eisiau.

Paid â dweud wrthyf fy mod i wedi dweud rhywbeth yn anghywir na rhoi pwysau arnaf i'w ailadrodd.

Dere lawr i fy lefel i er mwyn i fi weld sut rwyt ti'n gwneud synau. Paid â disgwyl i fi dy gopïo.

Ymateba i'r geiriau rwy'n eu dweud, ac nid i ba mor glir ydw i.



| **Lleferydd - Gweithgareddau a Awgrymir (2 flwydd i 2 flwydd 11 mis oed)** |
|---|
| **Bydd gweithgareddau a awgrymir ymhob un o'r meysydd cyfathrebu eraill yn cefnogi datblygiad lleferydd.** Dyma weithgareddau bob dydd sydd hefyd yn gallu helpu datblygu lleferydd plant: |
| Ewch am dro dysgu (gwrando ar synau amgylcheddol). |
| Gwrandewch ar synau o amgylch y lleoliad. |
| Sylwch ar odli - adroddwch a chanwch rigymau bob dydd. |
| Clapiwch sillafau mewn geiriau cyfarwydd e.e. enwau plant |
| Gosodwch ardal swnllyd/bagiau teimlo gyda theclynnau gwneud sŵn ac offerynnau cerdd. |
| Darllenwch lawer o storïau gyda phatrymau odli hawdd eu clywed. Anogwch y plant i awgrymu beth allai'r gair sy'n odli fod, wrth i chi oedi. |





